

EISTEDDFOD YR URDD SIR GAERFYRDDIN 2023

Rhif 83 – Unawd Cerdd Dant Bl. 7, 8 a 9

Hwiangerdd Afon Tywi (detholiad) gan Mererid Hopwood

Cainc: Lowri – Menai Williams (1122) Ceinciau'r Dyffryn a Mwy, CCDC



Hwiangerdd Afon Tywi

Gwêl yr awel yn ei changau'n
denu'i dail i suo cân,
gwêl ei blodau'n nyddu blanced
i'th gysgodi, 'mabi glân.

Clyw hwiangerdd hen Dywi dawel
yn cusanu'i gwreiddiau hi,
clyw, mae cwmni'r tonnau arian
eisiau dawnsio gyda thi.

Paid â gwrando ar y martsio,
paid â chlywed llosgi'r tŵr,
clyw ddim byd ond siant mynachod
yn distewi 'nghrych y dŵr.

Ac ar gwrwgl o gariad
cysga heno dan y sêr,
nes daw'r bore i'th gofleidio
gyda cân afallen bêr.